Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru
Canllaw hawlio

This document is also available in English.

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad y Newid	Golygydd	Manylion
Fersiwn 1.0	22/09/2023	Anita Davies / Amanda Jones	Addasiad cyntaf

Cyflwynwyd y canllawiau fis Medi 2023
Cyngor Gwynedd yn gweithio ar ran y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru.
E-bostiwch eich ymholiadau i: ffyniantgyffredingogleddcymru@gwynedd.llyw.cymru

Conwy · sir ddinbych denbighshire · Sir y Fflint Flintshire · Gwynedd · Ynys Môn Isle of Anglesey · wrexham wrecsam · Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro

Cynnwys

Cyflwyniad 4
1. Diben 4
2. Cyfeirnod Unigryw'r Prosiect 4
3. Amserlen Hawlio 4
4. Dogfennau Hawlio 5
Ffurflen Hawlio Grant 5
5. Trosolwg 5
6. Tab Canllaw 6
7. Datganiad Hawlio 7
8. Cynllun Cyflawni a Cherrig Milltir 8
9. Rhestr Trosglwyddiadau Gwariant 8
10. Allbynnau a Canlyniadau 10
11. Cofrestr Asedau 11
12. Caffael 11
13. Cofrestr Risg 12
Adroddiad cynnydd 14
14. Gweithgareddau'r Prosiect 14
15. Cyhoeddusrwydd 14
16. Amodau Arbennig a Rhag-amodau 14
17. Arfarnu'r Prosiect 14
18. Yr Iaith Gymraeg 15
19. Cydraddoldeb 15
20. Sero Net 15
21. Rheoli Cymorthdaliadau 15
22. Materion yn codi 15
23. Y Cais i Newid 15
24. Cynllunio Mlaen 17
Cyflwyno Hawliad 17
25. Cyfanrwydd 17
26. Ad-dalu'r grant 17
27 Gwirio ac Adolygu 17

28 Gwirio Samplau 18
29 Adolygu yn y fan a'r lle 18
Tystiolaeth a Dogfennaeth Gefnogol 19
30 Tystiolaeth gwariant 19
31 Allbynnau a Canlyniadau 19
32 Caffael 19
Gwariant Prosiect 20
33 Costau cymwys 20
34 TAW 20
35 Staff 20
36 Costau diswyddo 20
37 Gorbenion 21
38 Teithio a Chludiant 21
39 Grantiau/cefnogaeth i drydydd Partïon 21
40 Costau Cyfranogwyr 22
41 Costau Cyfalaf 22
42 Marchnata a Chyhoeddusrwydd 22
43 Cadw Dogfennau 22

Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru

Canllaw Hawlio Grant i Ymgeiswyr y Prosiect

Cyflwyniad

1. Diben

1.1 Darparu proses hawlio grantiau ariannol gyson er mwyn i'r sawl sy'n derbyn y grant i gwblhau a chyflwyno ffurflen hawlio grant ar gyfer ad-dalu arian UKSPF. Mae'r canllawiau'n egluro'r broses adrodd, ceisiadau i newid, meini prawf cymhwyso, cadw dogfennau, ceisiadau gwirio samplau, ymweliadau yn y fan a'r lle a chanllawiau i gwblhau'r ffurflenni angenrheidiol er mwyn hawlio cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredinol y DU yn llwyddiannus.

2. Cyfeirnod Unigryw'r Prosiect

2.1 Mae pob prosiect wedi derbyn cyfeirnod prosiect 3-digid unigryw. Gellir canfod y rhif hwn ar y llythyr cytundeb ariannu grant a gyflwynwyd ar gyfer eich prosiect a dylid ei gynnwys ym mhob gohebiaeth sy'n ymwneud â'ch hawliad. Dylid cyfeirio at hyn hefyd yn enw'r ffolder wrth ddychwelyd ffurflen hawlio grant eich project a'r adroddiad cynnydd.

3. Amserlen Hawlio

3.1 Bydd yr amserlen hawlio yn cael ei chytuno ar y dechrau a bydd y manylion wedi'u cynnwys yn eich cytundeb ariannu grant. Bydd arian grant y Gronfa Ffyniant yn cael ei ad-dalu am wariant ar sail chwarterol. Bydd prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo yn cael eu dyrannu i 1 o 3 cylch hawlio chwarterol.

3.2 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y sawl sy'n derbyn y grant ofyn i dderbyn yr arian ymlaen llaw neu geisio caniatâd i gyflwyno hawliad misol ychwanegol o fewn y cylch hawlio chwarterol a ddyrannwyd iddo. Bydd angen i brosiectau ddarparu cyfiawnhad cadarn i ddangos fod llif arian yn rhwystr i gyflawni'r prosiect er mwyn derbyn cymeradwyaeth. Mae gwybodaeth pellach ar daliadau ymlaen llaw ar gael ar gais.

3.3 Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno hawliad ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis sy'n dilyn dyddiad diwedd y cyfnod, neu fymryn cyn hynny. Er enghraifft, bydd angen cyflwyno hawliad ar gyfer cyfnod mis Gorffennaf - Medi 23 ar 14 Hydref 23, neu fymryn cyn hynny.

3.4 Bydd y broses hawlio yn dechrau pan fo'r cytundeb ariannu grant wedi'i lofnodi a'i dderbyn.

3.5 Bydd angen i'r sawl sy'n derbyn y grant gyflwyno'r ffurflen hawlio grantiau ac adroddiad cynnydd i Dîm Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru ar e-bost ar y dyddiad cau penodol neu cyn hynny.

3.6 Fel rheol, ni fydd yn bosib ymestyn y dyddiadau cau sydd wedi'u hamlinellu yn yr amserlen hawlio, ond mewn amgylchiadau eithriadol, bydd Tîm Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru yn ystyried ceisiadau i'w hymestyn. Yn yr achos hwn, bydd angen i'r sawl sy'n derbyn grant gysylltu â thîm SPF Gogledd Cymru ffyniantgyffredingogleddcymru@gwynedd.llyw.cymru mewn digon o amser ymlaen llaw, i egluro'r amgylchiadau a chynnig dyddiad cau diwygiedig i gyflwyno hawliad. Hyd nes y derbynnir cadarnhad ysgrifenedig gan dîm SPF Gogledd Cymru, bydd disgwyl i'r hawliad gael ei gyflwyno yn unol â'r amserlen gytunedig.

4. Dogfennau Hawlio

4.1 Bydd gofyn i'r sawl sy'n derbyn grant gwblhau a dychwelyd y dogfennau a ganlyn er mwyn i arian UKSPF gael ei ryddhau:

- Ffurflen Hawlio Grant (templed personol wedi'i gyflwyno ar wahân i ymgeisydd y prosiect) AC
- Adroddiad cynnydd

Ni ellir prosesu hawliadau ariannol heb i'r ddwy ddogfen gael eu cwblhau.

Ffurflen Hawlio Grant

5. Trosolwg

5.1 Bydd templed prif ffurflen hawlio grant yn cael ei gyflwyno i chi. Dogfen Excel fydd hon, wedi'i haddasu i adlewyrchu'r manylion yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy. Mae'r ffurflen hawlio grant yn cynnwys 9 tab unigol ar gyfer prosiect Awdurdod unigol a 10 tab ar gyfer prosiectau Sawl Awdurdod fel y manylir isod:

1. Canllaw
2. Ffurflen Hawlio Grant: Crynodeb
3. Rhestr Trafodion Gwariant
4. Dadansoddiad Ariannol UKSPF (Prosiectau sawl Awdurdod yn unig)
5. Allbynnau
6. Canlyniadau
7. Cofrestr Asedau
8. Cynllun Caffael
9. Cofrestr Risg
10. Cerrig Milltir

5.2 Efallai y bydd angen i dîm SPF Gogledd Cymru addasu neu ddiweddaru templed y ffurflen hawlio o dro i dro i sicrhau eu bod yn casglu digon o wybodaeth i'w hadrodd i Lywodraeth y DU. Tîm SPF Gogledd Cymru fydd yn gwneud unrhyw newidiadau i'r templed a byddant yn ei gyflwyno i chi cyn dyddiad cau unrhyw hawliad.

5.3 I sicrhau bod bob hawliad yn cael ei brosesu'n effeithlon, ni ddylai'r sawl sy'n derbyn grant newid fformat y ffurflen hawlio grant. Gall addasu'r templed effeithio o bosib ar y fformiwlâu sydd wedi'u cynnwys y tu mewn iddo gan achosi gwallau posib yn y ffurflen hawlio.

5.4 Bydd y ffurflen hawlio grant yn cael ei hanfon atoch yn electroneg. Cadwch y ddogfen fel eich prif dempled.

5.5 Bydd gofyn i chi gadw copi arall o'r prif dempled hwn er mwyn ei gwblhau pob chwarter.

5.6 Nodwch rif Adnabod Cyfeirnod y prosiect ac enw'r prosiect yn nheitl pwnc pob e-bost. Defnyddiwch hefyd y fformat enw ffolder penodol a nodir isod ar gyfer dogfennau hawlio grant.

5.7 Mae'r dyddiad yn cyfeirio at' ddyddiad diwedd cyfnod' a dylai rhif yr hawliad ddilyn rhif y cyflwyniad blaenorol.

Cyfeirnod Prosiect 3-digid unigryw Enw'r Prosiect BBBB-MM-DD *Hawliad X*

E.e., 001_Dychwelyd i'r Gwaith _2023-09-30_Hawliad 1

(Cyfeirnod prosiect: 001_Prosiect:: Dychwelyd i'r Gwaith_Dyddiad y daw'r cyfnod i ben: Medi 23_cyflwyniad hawliad: Hawliad: 1)

6. Tab Canllaw

6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r ffurflen hawlio ac yn rhoi cyfarwyddiadau ar yr adrannau i'w cwblhau.

6.2 Mae'n bwysig nodi, bydd angen cwblhau pob cell sy'n wyn. Mae gwerthoedd eisoes wedi'u rhoi yn y celloedd glas golau o Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy ac maent wedi'u cloi ac ni ellir eu golygu. Mae celloedd llwyd yn werthoedd neu'n fformiwlâu sydd wedi'u penderfynu eisoes ac ni ellir eu golygu.

7. Datganiad Hawlio

7.1 Mae'r tab hwn yn rhoi trosolwg o wariant y prosiect a bydd angen ei gwblhau i gyfrifo cyfanswm y gwariant hyd yn hyn.

7.2 Bydd gofyn i chi adolygu'r ffigyrau cymeradwy sydd wedi'u cynnwys eisoes i sicrhau eu bod yn gywir. Dylid adrodd ar unrhyw anghysondebau i dîm SPF Gogledd Cymru mor fuan â phosib.

7.3 Mae'r adrannau wedi'u crynhoi, ac wedi'u rhoi mewn cod lliw yn unol â'r canllawiau er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Adrannau gwyn i'w cwblhau pob chwarter. Mae'r adrannau glas wedi'u llenwi eisoes.

Derbynnydd y grant	Bydd y manylion hyn wedi'u mewnbynnu ymlaen llaw gyda'r manylion sydd yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy. Mae gofyn i ymgeiswyr wirio pa mor gywir yw'r wybodaeth sydd wedi'i mewnbynnu ymlaen llaw ac adrodd am unrhyw anghysondebau i Dîm SPF Gogledd Cymru cyn gynted â phosib.
Enw'r prosiect	
Cyfeirnod y prosiect:	
Dyddiad dechrau'r prosiect:	
Dyddiad y daw'r prosiect i ben	
Rhif yr hawliad	Nodwch rif yr hawliad. Dylai'r rhif hwn fod yn ddilyniannol a dilyn y rhif sydd ar y cyflwyniad hawliad blaenorol
Cyfnod hawlio o	Nodwch ddyddiad diwrnod cyntaf y cyfnod hawlio.
Cyfnod hawlio i	Nodwch ddyddiad diwrnod olaf y cyfnod hawlio.
Hawliad Terfynol	Gan ddefnyddio'r ddewislen, dewiswch i gadarnhau a yw'r hawliad yn un terfynol ai peidio.
Cyfanswm y gwariant sydd wedi'i gymeradwyo	Mae gwerthoedd gwariant refeniw/cyfalaf UKSPF ac arian cyfatebol eisoes wedi'u rhoi yn y celloedd gyda'r ffigyrau cyfanswm gwariant o Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy.
1) Cyfanswm y gwariant a hawliwyd yn flaenorol	Nodwch gyfanswm gwariant cyfalaf/refeniw UKSPF a gwariant arian cyfatebol a ddatganwyd mewn hawliadau blaenorol.
2) Cyfanswm y gwariant yn y cyfnod hawlio hwn	Nodwch gyfanswm gwariant cyfalaf/refeniw UKSPF a gwariant arian cyfatebol ar gyfer y cyfnod hwn. Dylai'r cyfansymiau gyfateb y rhai sydd wedi'u datgan ar y Tab Trafodion Gwariant.
Cyfanswm y gwariant a hawliwyd hyd yn hyn	Bydd cyfanswm y gwariant a hawliwyd hyd yn hyn yn cael ei gyfrifo'n awtomatig. Sef cyfanswm

	1) y gwariant a hawliwyd yn flaenorol, ac 2) y gwariant a hawliwyd yn y cyfnod hwn. Y gwerthoedd hyn fydd y gwerthoedd a gaiff eu cario i'ch cyflwyniad nesaf a byddant wedi'u nodi yn 1) uchod.
Gwariant sy'n weddill	Bydd cyfanswm y gwariant sydd ar ôl yn cael ei gyfrifo'n awtomatig.

7.4 Wedi i chi gwblhau a gwirio holl rannau'r ffurflen hawlio grant bydd gofyn i chi lofnodi'r datganiad. Ni fydd yr hawliad grant yn cael ei brosesu na'i ad-dalu oni bai bod yr hawliad grant yn ei gyfanrwydd yn cael ei gwblhau'n gywir a'i lofnodi gan lofnodwr awdurdodedig y project.

8. Cynllun Cyflawni a Cherrig Milltir

8.1 Mae'r adran hon o'r ffurflen hawlio grant yn nodi manylion y cynllun cyflawni a'r cerrig milltir a nodwyd yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy.

8.2 Bydd gofyn i chi ddiweddaru'r rhannau gwyn i gadarnhau pan fo carreg filltir wedi'i chyflawni. Os oes unrhyw oedi yn y cynllun cyflawni, bydd angen i chi gadarnhau hyn a darparu dyddiad diwygiedig a diweddariad ar ffurf adroddiad i gadarnhau'r rhesymau am yr oedi.

Carreg Filltir neu Becyn Gwaith Cytunedig	Bydd manylion y cerrig milltir a gytunwyd arnynt yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy wedi cael eu mewnbynnu eisoes.
Dyddiad dechrau	
Dyddiad gorffen	
Wedi'i gyflawni hyd yma? Do neu Naddo	Cwblhewch i gadarnhau p'un a yw'r garreg filltir wedi'i chwblhau ai peidio
Dyddiad(au) Diwygiedig	Os yw dyddiad cau'r garreg filltir wedi bod ac nad yw wedi'i chyflawni, nodwch ddyddiad diwygiedig.
Sylwadau	Darparwch naratif i egluro unrhyw amrywiadau i'r cynllun cyflawni gwreiddiol a'r cerrig milltir a gymeradwywyd.

9. Rhestr Trosglwyddiadau Gwariant

9.1 Mae'r adran hon yn nodi manylion y trafodion gwariant i'w hawlio ar gyfer y cyfnod hwn.

1. Rhif ID cyfeirnod y ddogfen	Nodwch fanylion rhif y ddogfen ar gyfer y trafodiad. Gall y rhif hwn fod yn rif dilyniannol ar gyfer cyfnod yr hawliad neu eich cyfeirnod mewnol eich hun. Bydd tîm rhanbarthol SPF

	Gogledd Cymru yn defnyddio'r cyfeirnod hwn i roi gwybod i chi pa samplau sydd yn cael eu dewis i'w gwirio. Sicrhewch hefyd fod y cyfeirnod hwn yn cael ei deipio/ysgrifennu ar y ddogfen ac yn cael ei ddyfynnu yn enw'r ffeil wrth ei gyflwyno i dîm SPF Gogledd Cymru i'w adolygu.
2. Cyfalaf / Refeniw	Manylwch a yw'r gwariant yn gyfalaf neu refeniw.
3. Pennawd Cost	Pennawd cost cymwys fel y nodir yn Atodlen B ffurflen gais y prosiect cymeradwy.
4. Disgrifiad o'r Gwariant	Disgrifiad llawn o'r eitem wariant.
5. Enw'r Cyflenwr, credydwr/talai	Enw'r cyflenwr, credydwr/talai neu weithiwr:
6. Rhif yr anfoneb / Cyfeirnod Talai	Anfoneb/derbynneb neu rif cyfeirnod.
7. Dyddiad Anfoneb / Dyddiad Trafodiad	Dyddiad anfoneb neu ddyddiad y trafodiad.
8. Swm y trafodyn ac eithrio TAW (Swm Net)	Cyfanswm net yr anfoneb (ac eithrio TAW).
9. TAW	Gwerth TAW ar yr anfoneb/derbynneb. £0.00 os nad oes TAW.
10. Cyfanswm y trafodiad (Gros)	Cyfanswm swm gros y trafodiad (gan gynnwys TAW). Bydd hyn yn cyfrifo'r cyfanswm sydd i'w dalu i'r cyflenwr yn awtomatig.
11. Swm TAW nad oes modd ei adennill	Os yn berthnasol, yr elfen TAW nad oes modd ei adennill gan HMRC. Dim ond yr elfen hon o TAW ellir ei chynnwys yn swm hawliad eich prosiect.
12. Cyfanswm hawliad y prosiect	Cyfanswm y swm hawliad prosiect sy'n cael ei hawlio yn erbyn y prosiect. Os yw'r swm yn wahanol i'r cyfanswm Net yn ogystal ag unrhyw TAW nad oes modd ei adennill, nodwch sylw ategol.
13. Swm y Grant UKSPF	Cyfran y treuliau i'w hawlio fel grant UKSPF.
14. Swm yr arian cyfatebol	Bydd y swm Arian Cyfatebol yn cael ei gyfrifo yn awtomatig. Dyma gyfanswm swm hawliad y prosiect llai'r swm grant UKSPF.
15. Sylwadau ategol neu fanylion unrhyw dybiaethau sy'n ymwneud â chostau.	Sylwadau ategol yn ymwneud â'r gwariant a'r symiau a hawlir. E.e. Gwariant y tu allan i'r cyfnod hawlio / Canran y TAW nad oes modd ei adennill / Dim ond elfen o werth y trafodiad sy'n ymwneud â'r SPF.
16. W1 – W53	Swm UKSPF sy'n berthnasol i bob ymyrraeth sydd wedi'i chytuno. Rhaid i'r cyfanswm a ddyrannir yn erbyn yr ymyraethau fod yn gyfartal â chyfanswm y grant UKSPF yng Ngholofn 13.

10. Allbynnau a Canlyniadau

10.1 Er hwylustod, mae'r tabiau allbynnau a canlyniadau wedi'u haddasu i adlewyrchu'r dangosyddion a'r gwerthoedd targed yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy. Dylai ymgeiswyr sicrhau cywirdeb cyn cyflwyno'r hawliad cyntaf a rhoi gwybod i Dîm SPF Gogledd Cymru am unrhyw anghysondebau cyn gynted â phosib.

10.2 Gofynnir i ymgeiswyr gofnodi nifer yr allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnwyd o fewn y cyfnod hawlio a'r ffigwr cronnus a gyflawnwyd hyd yn hyn.

Rhif yr Ymyrraeth	Ymyrraeth y mae'r allbwn/canlyniad yn ymwneud ag o
Dangosydd allbwn	Dangosyddion allbwn/canlyniadau i'w cyflawni
Targed Cymeradwy	Targed cytunedig
Wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod hawlio hwn	Nodwch nifer yr allbynnau/canlyniadau a gyflawnwyd o fewn y cyfnod hawlio
Cyfanswm wedi'i gyflawni hyd yma	Nodwch nifer cronnus yr allbynnau/canlyniadau a gyflawnwyd hyd yn hyn.
Nodwch y dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r allbynnau/canlyniadau yr ydych yn eu hawlio	Darparwch fanylion llawn y dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r allbynnau/canlyniadau yr ydych wedi'u cyflawni hyd yn hyn.
Allbynnau/canlyniadau ychwanegol	**MAE'R ADRAN HON YN DDEWISOL AC NID YW'N NEGYDDU EICH RHWYMEDIGAETH I GYFLAWNI'R ALLBYNNAU A GYMERADWYWYD FEL RHAN O ATODIAD B** Defnyddiwch y darn yma i gofnodi unrhyw allbynnau ychwanegol sydd wedi ei cyrraedd.

10.3 DS: Dylai ymgeiswyr gofnodi allbwn neu canlyniad sydd wedi'i gyflawni un waith yn unig ac ni ddylid ei gyfrif fwy nag unwaith o dan wahanol ymyraethau.

E.e., *Os yw'r prosiect wedi creu 5 swydd newydd sy'n berthnasol i W13 ac W14. Sicrhewch mai dim ond cyfanswm o 5 swydd sy'n cael eu hadrodd. Gellir hawlio'r rhain yn erbyn yr ymyrraeth fwyaf perthnasol neu eu rhannu rhwng y ddwy ymyrraeth gan sicrhau bod y cyfanswm yn 5 rhwng y ddwy ymyrraeth.*

Ni ystyrir ei fod wedi'i gyfrif ddwywaith os yw'r uned fesur yn wahanol.
E.e., *os yw'r prosiect yn cyflawni '5 swydd wedi'i chreu o ganlyniad i gefnogaeth' a bod yr un '5 person yn derbyn cefnogaeth i gael cyflogaeth'.*

10.4 Dylai ymgeiswyr nodi manylion y dystiolaeth a gasglwyd i gefnogi pob allbwn a deilliant a hawlir.

10.5 Mae diffiniadau a'r dystiolaeth a ddisgwylir i gefnogi cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau wedi'u hatodi i'r ddogfen hon yn Atodiad 1.

11. Cofrestr Asedau

11.1 Gosodiadau/ffitiadau/offer ac ati. Os yw'r swm yn £5,000 neu fwy, rhaid rhestru manylion ar y tab cofrestr asedau yn y ffurflen hawlio.

11.2 Dim ond eitemau sydd wedi'u nodi yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy gaiff eu hawlio.

11.3 Llenwch bob colofn yn y tab hwn, ac os yw'n amherthnasol nodwch D/B.

12. Caffael

12.1 Rhestrwch yr holl weithgareddau caffael a gyflawnwyd hyd yn hyn gyda'r gwariant sy'n cael ei hawlio yn y chwarter hwn.

12.2 Sicrhewch fod pob colofn yn cael ei llenwi.

Rhif Adnabod Caffael	Mae hwn eisoes wedi'i nodi yn y celloedd.
Disgrifiad o'r gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau	Disgrifiad o waith, cyflenwadau neu wasanaethau caffael a gyflawnwyd ac y mae'r gwariant yn cael ei gynnwys gyda'r hawliad hwn. Os nad ydych yn hawlio unrhyw wariant ar hyn o bryd, ni ddylech gynnwys y manylion caffael.
Gwerth y Contract a Ddyfarnwyd	Cyfanswm gwerth y contract mewn £
Dyddiad Dyfarnu'r contract	Y dyddiad y dyfarnwyd y contract.
Sefydliad a gomisiynwyd i gyflawni gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau.	Enw'r Sefydliad/Cwmni sydd wedi derbyn y contract i gyflawni gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau ar gyfer y prosiect UKSPF hwn.
Sut gafodd ymarfer caffael ei wneud?	Rhowch fanylion sut y cynhaliwyd y broses gaffael ar gyfer y gwaith, cyflenwad neu wasanaethau hyn. E.e. 3 dyfynbris ysgrifenedig, ymarferiad tendro llawn, GwerthwchiGymru.
Mae'r caffael yn cadw at y canllawiau	Cadarnhewch fod y llwybr caffael yr ydych wedi'i ddilyn yn cyd-fynd â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a diwygiadau 2020 Caffael UKSPF.

	Os nad ydynt, nodwch y rheswm pam a ph'un a yw hyn wedi'i gymeradwyo ai peidio, a phwy sydd wedi'i gymeradwyo,

13. Cofrestr Risg

13.1 Dylid cwblhau'r gofrestr risg gan fanylu ar y prif risgiau a nodwyd yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy.

13.2 Fel rhan o'ch cyflwyniad rhaid i chi adolygu pob risg sy'n bodoli a'u diweddaru pan fo angen i sicrhau eu bod yn parhau'n ddilys, a bod y sgoriau'n adlewyrchu'r amgylchiadau presennol. Dylid diweddaru risgiau nad ydynt yn ddilys mwyach gan roi statws 'wedi cau' iddynt.

13.3 Ychwanegwch unrhyw risgiau neu gyfleoedd newydd sydd wedi'u hadnabod yng nghyfnod yr hawliad. Mae adran arall o fewn y ffurflen hawlio i chi adrodd yn fanylach ar y materion presennol.

Statws Risg	Defnyddiwch y ddewislen i gadarnhau a yw'r risg yn parhau i fod yn berthnasol i'r prosiect ai peidio. Dylai pob risg perthnasol fod ar agor.
Categori'r risg	Defnyddiwch y ddewislen i ddethol o'r opsiynau isod: • Masnachol • Technegol • Cyllideb/Ariannol • Gweithredol • Cynllunio • Ansawdd • Isadeiledd • Sefydliadol/Busnes • Adnodd • Arall Os arall, categoreiddiwch hynny yn y golofn 'Disgrifiad manwl'
Bygythiad / Cyfle	Defnyddiwch y ddewislen i ddethol o'r opsiynau isod • Bygythiad • Cyfle
Teitl y Risg / Cyfle	Darparwch deitl cryno ar gyfer y risg/cyfle e.e., Methu recriwtio staff
Disgrifiad Manwl	Disgrifiad manwl o'r risg/cyfle *e.e. Mae risg y bydd yna oedi cyn dechrau'r prosiect*

Achos y Risg / Cyfle	Manylwch ar yr hyn sy'n achosi'r risg/cyfle *e.e., Achosir y risg gan gyfyngiadau capasiti*
Canlyniad y risg / cyfle	Manylwch ar yr effaith y bydd y risg yn ei gael *e.e., Ni fydd y prosiect yn medru dechrau ar amser.*
Tebygolrwydd	Mae'r Matrics Risg ar frig y dudalen yn dangos y sgoriau'n seiliedig ar y tebygolrwydd ac y bydd achlysuron penodol yn digwydd. Defnyddiwch y sgoriau hyn fel canllaw i'ch cynorthwyo i lenwi'r Gofrestr Risg. • 5: Sicr / Tebygol Iawn • 4: Posib / Tebygol • 3: Posib • 2: Annhebygol • 1: Bychan / Annhebygol Iawn
Effaith	Mae'r Matrics Risg ar frig y dudalen yn dangos y sgoriau'n seiliedig ar ddifrifoldeb achlysuron penodol yn digwydd. Defnyddiwch y sgoriau hyn fel canllaw i'ch cynorthwyo i lenwi'r Gofrestr Risg. • 5: Difrifol • 4: Arwyddocaol • 3: Cymedrol • 2: Bychan • 1: Dibwys
Sgôr Asesiad Risg	Defnyddiwch y sgoriau hyn fel canllaw i'ch cynorthwyo i lenwi'r Gofrestr Risg. • 13-25: Critigol • 5-12: Mawr: • 1-4: Bychan:
Strategaeth Lliniaru a chamau gweithredu	Rhowch fanylion unrhyw fesurau lleddfu fydd yn lleihau tebygolrwydd ac effaith y risg: E.e., *1) Mae amser ychwanegol wedi cael ei gynnwys fel rhan o'r amserlen* *2) Ystyried defnyddio staff asiantaeth*
Pryd fydd y camau lliniaru wedi / yn cael eu gweithredu	Nodwch y dyddiad pan fo'r mesurau lleddfu wedi'u gweithredu
Tebygolrwydd ar ôl y Mesurau Lliniaru	Ail-sgoriwch y tebygolrwydd gan ystyried y mesurau lleddfu yn defnyddio'r ffactorau sgorio a nodir uchod
Effaith ar ôl y Mesurau Lliniaru	Ail-sgoriwch yr effaith gan ystyried y mesurau lleddfu yn defnyddio'r ffactorau sgorio a nodir uchod.
Graddfa'r Asesiad Risg ar ôl y Mesurau Lliniaru	Defnyddiwch y sgoriau hyn fel canllaw i'ch cynorthwyo i lenwi'r Gofrestr Risg. • 13-25: Critigol

	• 5-12: Mawr: 1-4: Bychan:

Adroddiad cynnydd

Mae hwn yn adroddiad y dylid ei gwblhau a'i ddychwelyd i ddiweddaru ar y cynnydd os nad ydych yn cyflwyno hawliad grant ariannol.

Ni allwn brosesu'ch hawliadau ariannol oni bai ein bod wedi derbyn adroddiad cynnydd cyfredol.

14. Gweithgareddau'r Prosiect

14.1 Adroddwch ar y diweddariadau gan grynhoi cynnydd a chyflwyniadau yn ystod y cyfnod hawlio. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir, gwariant, recriwtio, allbynnau a canlyniadau.

15. Cyhoeddusrwydd

15.1 Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu manylion unrhyw weithgareddau cyhoeddusrwydd a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hawlio. Gall hyn gynnwys, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion staff, erthyglau, posteri, placiau, cynnwys ar y wê.

15.2 Darparwch hefyd unrhyw fanylion o ddigwyddiadau sydd i ddod i ni gael rhoi gwybod i Arweinwyr Llywodraeth y DU a'r ALl am ymweliadau posib gan Weinidogion.

16. Amodau Arbennig a Rhag-amodau

16.1 Defnyddiwch yr adran hon i roi diweddariad cynnydd yn erbyn unrhyw amodau arbennig ac i gadarnhau eich bod wedi bodloni unrhyw rhag-amodau sy'n ofynnol fel rhan o'ch dyfarniad cyllid grant.

16.2 Byddwch yn ymwybodol bod yn rhaid i chi fodloni a chydymffurfio a'r holl rhag-amodau cyn y gellir rhyddhau unrhyw daliadau.

16.3 Nodwch D/b os nad yw'r adran hon yn berthnasol.

17. Arfarnu'r Prosiect

17.1 Darparwch adroddiad diweddaru ar gynnydd arfarnu'r prosiect. Dylai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Paratoi briff ar gyfer arfarnu'r prosiect,
- Hysbysebu cyfle i gomisiynu ymgynghorydd,
- Penodi ymgynghorydd,

- Sgopio / cyfweliadau,
- Derbyn adroddiad arfarnu prosiect interim,
- Derbyn adroddiad arfarnu prosiect terfynol ac ati.

18. Yr Iaith Gymraeg

18.1 Crynhowch unrhyw weithgareddau yn yr Iaith Gymraeg sy'n berthnasol i'r prosiect. Gall hyn gynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cyflawni'r prosiect / wedi'u recriwtio
- Arwyddion Cymraeg,
- Gwaith sydd wedi'i gyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg, yn Ddwyieithog neu ddeunyddiau hyrwyddo Cymraeg ac ati.

19. Cydraddoldeb

19.1 Rhowch grynodeb o unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â phrosiect sy'n cefnogi cydraddoldeb. Gallai hyn gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cymorth wedi'i dargedu i unigolion o unrhyw un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig,
- Cyfranogwyr sy'n ymgysylltu â'r prosiect o unrhyw un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig
- Gwaith hygyrch, rampiau, lifft ac ati

20. Sero Net

20.1 Crynhowch unrhyw weithgareddau sy'n cefnogi polisïau Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

21. Rheoli Cymorthdaliadau

21.1 Nodwch sut yr ydych wedi cadw at weithredu gofynion rheoli cymorthdaliadau ar gyfer eich prosiect. Os nad yw'n berthnasol i'ch prosiect, nodwch D/b.

22. Materion yn codi

22.1 Nodwch unrhyw faterion a allai effeithio ar eich prosiect, e.e. amserlen, gwariant, allbynnau/canlyniadau. Os nad yw'n berthnasol i'ch prosiect, nodwch D/b.

23. Y Cais i Newid

23.1 Rhaid i chi roi gwybod yn ysgrifenedig i dîm SPF Gogledd Cymru am unrhyw newid sylweddol all effeithio ar y prosiect fel yr eglurwyd yn adran 7.6 y cytundeb ariannu grant.

23.2 Bydd angen i chi gadarnhau a yw unrhyw rai o'r newidiadau yn bodloni'r diffiniad o newid sylweddol. Os felly, bydd angen i chi hefyd gadarnhau a ydych wedi trafod hyn gyda'r awdurdod lleol perthnasol.

23.3 Mae'n bwysig trafod unrhyw newidiadau posibl gyda'ch cyswllt awdurdod lleol yn y lle 1af, gan y bydd angen cytundeb o flaen llaw ar bod newid sylweddol ac ni fydd taliadau'n cael eu rhyddhau nes bod cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol a/neu'r tîm rhanbarthol wedi cadarnhau bod y newid yn dderbyniol.

23.4 Byddai amrywiadau sylweddol yn cynnwys:

- Oedi o fwy na 4 mis yn erbyn y cerrig milltir a nodwyd yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy.
- Trosglwyddo arian rhwng penawdau gwariant dros 20% o'r llinell gyllideb neu £50,000 (pa un bynnag sydd leiaf/£100,000 Aml Awdurdodau
- Unrhyw newid i'r targedau allbynnau neu canlyniadau disgwyliedig fel y nodir yn Atodiad B i'r ffurflen gais a gymeradwywyd gan y prosiect.
- Llithriad blwyddyn ariannol yn erbyn cyfansymiau'r flwyddyn ariannol a nodi yn Atodiad B i'r ffurflen gais a gymeradwywyd gan y prosiect.

23.5 Bydd ceisiadau am newid sylweddol yn cael eu hystyried fesul achos mewn ymgynghoriad â'r diffiniadau uchod os rhoddir esboniad naratif digonol ar yr adroddiad cynnydd.

23.6 Byddwch yn cael gwybod yn ffurfiol am ganlyniad y cais o fewn 30 diwrnod calendar.

23.7 Bydd y broses o hawlio arian grant yn cael ei rhewi wrth ystyried cais i newid.

23.8 Pe bai'r cais yn cael ei dderbyn bydd ychwanegiad yn cael ei gyflwyno i'r ffurflen gais y prosiect cymeradwy a bydd angen ei lofnodi. Wrth dderbyn yr ychwanegiad wedi'i lofnodi bydd templed ffurflen hawlio grant wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno a bydd y broses dalu hawliadau yn cael ei hailgyflwyno.

24. Cynllunio Mlaen

24.1 Defnyddiwch yr adran hon i roi crynodeb byr o'r gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y 3 mis nesaf.

Cyflwyno Hawliad

25. Cyfanrwydd

25.1 Rhaid i Ymgeiswyr Prosiect sicrhau cyfanrwydd a chywirdeb yr hawliad. Rhaid i'r hawliad gael ei lofnodi gan y swyddogion priodol a'i gyflwyno gyda'r adroddiad cynnydd trwy e-bost i dîm SPF Gogledd Cymru: ffyniantgyffredingogleddcymru@gwynedd.llyw.cymru

25.2 Pe bai unrhyw elfen o'r ffurflen hawlio heb ei llenwi, bydd yr hawliad yn cael ei ddychwelyd er mwyn ei gywiro a'i ailgyflwyno o fewn 5 diwrnod gwaith. Gall methu â chadw at y dyddiadau cau arwain at ddal yr hawliad am dâl yn ôl nes y dyddiad hawlio nesaf.

25.3 O ran cydweithio, da o beth fyddai codi pob ymholiad sy'n ymwneud â hawliad cyn y dyddiad cyflwyno hawliad perthnasol.

26. Ad-dalu'r grant

26.1 Bydd gwiriadau cyflawnrwydd yn cael eu cynnal ar ôl derbyn eich Ffurflen Hawlio Grant a'r adroddiad Cynnydd. Byddwch yn cael eich hysbysu o fewn 10 diwrnod gwaith o'i dderbyn os oes unrhyw wybodaeth ar goll gyda chais i chi ailgyflwyno'ch hawliad.

26.2 Ein bwriad yw rhyddhau taliadau ffurflen hawlio gyflawn o fewn 10-15 diwrnod gwaith Bydd hysbysiad e-bost yn cael ei anfon i gadarnhau'r swm a'r dyddiad talu disgwyliedig.

26.3 Ni fydd taliad yr hawliad terfynol yn cael ei ryddhau nes i Dîm SPF Gogledd Cymru gyflawni gwiriadau sampl a derbyn yr holl ddogfennau perthnasol sydd eu hangen arnynt ar gyfer eich prosiect. ***(Mae'n hanfodol eich bod yn ymwybodol o hyn)***

27 Gwirio ac Adolygu

27.1 Bydd angen gwirio gwariant, gweithgarwch a'r llwyddiannau a adroddwyd arnynt ar gyfer y prosiect. Bydd y gwiriadau'n cael eu cynnal ar ôl cyflwyno pob hawliad chwarterol. Ni fydd y gwiriadau hyn yn peri oedi i dalu'r hawliad yr ydych

wedi'i gyflwyno. Fodd bynnag, gall gwybodaeth anghywir neu ddiffyg gwybodaeth achosi oedi rhag talu hawliadau yn y dyfodol.

27.2 Bydd pob ymholiad neu gais am dystiolaeth ychwanegol am yr adolygiad yn cael eu hanfon dros e-bost a bydd angen ymateb boddhaol o fewn 5 diwrnod gwaith i sicrhau y gellir prosesu hawliadau grant yn y dyfodol. Gall unrhyw oedi fan hyn beri i hawliadau yn y dyfodol gael eu dal yn ôl nes y cyfnod hawlio nesaf.

27.3 Gallwch hefyd fod yn destun ymweliad gwirio ar y safle i archwilio'ch cofnodion yn gorfforol.

28 Gwirio Samplau

28.1 Bydd pob hawliad grant a gyflwynir yn destun gwiriad sampl. Byddwch fel arfer yn derbyn cais am sampl ar yr un pryd ag yr ydych yn derbyn hysbysiad fod y taliad grant UKSPF yn cael ei ryddhau.

28.2 Bydd samplau gwirio yn cael eu dewis o'r:

- Rhestr trafodion gwariant,
- Allbynnau a gyflawnwyd hyd yn hyn,
- Canlyniadau a gyflawnwyd hyd yn hyn, a'r
- Caffael a gyflawnwyd.
- Gweithgaredd Marchnata

28.3 Bydd pob cais am sampl yn gymesur â lefel y risg a nodwyd o unrhyw adolygiadau blaenorol a byddant felly yn amrywio o hawliad i hawliad ac o brosiect i brosiect.

28.4 Bydd gofyn i chi gyflwyno llwybr archwilio llawn i'r sampl dros e-bost o fewn **deg diwrnod gwaith.** Mae angen hyn i roi sicrwydd fod arian UKSPF yn cael ei ddefnyddio'n iawn.

28.5 Dylid cyflwyno un PDF i gefnogi pob sampl a ddewisir. Peidiwch â chyflwyno nifer o ddogfennau i gefnogi sampl.

28.6 Yn ystod y gwiriad sampl, os darganfyddir camgymeriadau, bydd angen i'r rhain gael eu cywiro ar eich hawliad nesaf. Gall hyn hefyd gynyddu nifer y trafodion sampl y bydd gofyn i chi eu cyflwyno ar hawliadau yn y dyfodol.

29 Adolygu yn y fan a'r lle

29.1 Yn ystod bywyd y prosiect, mae'r SPF Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i archwilio cofnodion ac asedau'r prosiect ar y safle. Bydd SPF Gogledd Cymru yn rhoi cymaint o

rybudd â phosib, a lleiafswm y cyfnod rhybudd yw 12 diwrnod gwaith. Bydd angen i chi sicrhau bod eich prosesau'n ddigon cryf i hwyluso adolygiad o'r fath.

29.2 Wedi'r ymchwiliad, os nad yw SPF Gogledd Cymru yn fodlon gyda'u casgliadau, gallent ofn i chi ad-dalu peth neu'r cyfan o'r arian.

Tystiolaeth a Dogfennaeth Gefnogol

30 Tystiolaeth gwariant

30.1 I wirio'r gwariant a hawlir bydd gofyn i chi gyflwyno copi o'r archeb brynu berthnasol, anfoneb/derbynneb, cofrestriad Bacs, cyfriflenni banc.

31 Allbynnau a Canlyniadau

31.1 Gall y dystiolaeth i gefnogi'r allbynnau a'r canlyniadau amrywio o brosiect i brosiect. Mae'n bosib nad yw'r dystiolaeth a nodi'r yn Atodiad B eich cais prosiect cymeradwy fod yn ddigonol i ddiwallu'r diffiniadau cyhoeddedig UKSPF. Allbynnau a Chanlyniadau UKSPF

31.2 Os felly, bydd aelod o'r tim SPF yn cysylltu a chi i weithio gyda chi a chytuno ar unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallai fod angen i chi ei chasglu. Gweler Atodiad 1 fel canllaw i'r mathau o dystiolaeth a fyddai'n bodloni'r diffiniad.

32 Caffael

32.1 Bydd samplau gwirio caffael yn rhai ysgafn. Ni fydd rhaid i chi ond darparu adroddiad caffael. Yn ddibynnol ar y gwerth/proses a gyflawnwyd, gall hyn gynnwys adroddiad yn rhoi manylion y 3 dyfyniad a dderbyniwyd ac adroddiad bras ar gyfer y cyflenwr dethol neu adroddiad arfarni ar gyfer bidiau gwerth uwch.

32.2 Rhaid i chi gadw'r holl dystiolaeth i gefnogi'r holl broses oherwydd y bydd hyn yn cael ei brofi os cewch chi ymweliad ar y safle.

32.3 Mae dogfennau sydd i'w cadw ar ffeil yn cynnwys: (nid yw rhestr hon yn gyflawn)

- Y gweithdrefnau a ddefnyddir cyn ac yn ystod dethol
- Y meini prawf arfarnu tendr a ddefnyddiwyd
- Adroddiad arfarnu'r tendr
- Copi o Gyfnodolyn OJEU wedi'i ddefnyddio i hysbysebu
- Gweithdrefn o Agor a chofnodi Tendrau (Adroddiad Agor Tendr)
- Panel Gwerthuso
- Datganiadau Cyfrinachedd / Gwrth Gyd-gynllwynio
- Gwerthuso / Dadansoddiad / Matrics Sgorio tendrau
- Adroddiad tendr neu gofnodion Cyfarfod yn seiliedig ar benderfyniad

- Copi o gytundeb / contract y cyflenwr llwyddiannus wedi'i lofnodi a dyddiad arno
- Copi o ddogfennaeth hysbysu cyflenwyr aflwyddiannus
- Cyfarfod Adeiladu (cynlluniau Adeiladu-Grant cyfalaf yn unig)
- Rhaglen Waith (cynlluniau Adeiladu-Grant cyfalaf yn unig)

Gwariant Prosiect

33 Costau cymwys

33.1 Dim ond gwariant sydd wedi'i nodi yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy sy'n gymwys i gael ei hawlio. Nid yw'r gwariant ond yn gymwys os yw wedi cael ei wario a'i dalu.

33.2 Nid oes gofyn i chi anfon dogfennau cefnogol i brofi'r gwariant wrth i chi hawlio'r grant, ond bydd un o Dîm SPF Gogledd Cymru yn cysylltu â chi, yn gofyn am lwybr archwilio llawn ar sampl o'r trafodion o fewn yr hawliad.

33.3 I brofi eich bod wedi gwario a thalu bydd angen i chi gyflwyno copi o'r archeb, yr anfoneb, unrhyw waith cyfrifo i ddangos sut y cyrhaeddwyd at y swm hwn sy'n cael ei hawl, a chopi o gyfriflen banc i ddangos y taliad. Os yw'r taliad yn rhan o daliad mwy, bydd gofyn i chi ddarparu manylion sut y cyrhaeddwyd y swm ar y gyfriflen banc.

34 TAW

34.1 Ni ddylid cynnwys TAW oni bai eich bod yn gallu dangos nad ydych yn medru ei gael yn ôl gan yr awdurdodau treth (HMRC). Os nad oes posib adfer % o'r TAW, bydd angen i chi ddarparu manylion/cyfrifiadau i ddangos sut y cyrhaeddoch at y swm a hawlir.

35 Staff

35.1 Staff Cyflwyno Prosiect a Rheoli Prosiect: Dim ond eitemau sydd wedi'u nodi yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy gaiff eu hawlio.

36 Costau diswyddo

36.1 Ni ellir ond hawlio costau diswyddo os yw wedi'i nodi fel cost yn Atodlen B eich ffurflen gais.

36.2 Rhaid i staff gael o leiaf 2 flynedd o wasanaeth parhaus ar y prosiect. Rhaid gwneud y penderfyniad i ddiswyddo pan fo'r aelod staff dal yn gweithio ar y prosiect SPF.

36.3 Dim ond y gyfran SPF gysylltiedig o unrhyw dâl diswyddo fydd yn gymwys.

36.4 Mae angen i'r holl gostau diswyddo fod yn gymesur o ran yr amser a dreulir a rhaid iddynt fod ar sail pro-rata os ydynt yn gweithio ar y prosiect ar sail rhan amser.

37 Gorbenion

37.1 Wrth hawlio am % o orbenion (os ydynt wedi'u nodi yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy) bydd angen i chi ddarparu manylion/cyfrifiadau sut yr ydych wedi cyrraedd y swm a hawlir.

38 Teithio a Chludiant

38.1 Mae angen i gostau teithio a chynhaliaeth (gwirioneddol) ymwneud ag aelodau staff y prosiect a rhaid eu gwario'n benodol mewn perthynas â gweithgarwch y prosiect a ariannir gan dîm SPF Gogledd Cymru.

38.2 Rhaid i chi gadw'r holl ddogfennaeth briodol i gefnogi unrhyw hawliad Teithio a Chludiant (biliau gwesty, derbynebau parcio, cardiau mynediad, tocynnau ac ati) a rhaid i'r cyfraddau teithio a ddefnyddir fod yn £0.45 y filltir (cyfradd HMRC).

39 Grantiau/cefnogaeth i drydydd Partïon

39.1 Wrth gyflwyno hawliad am daliadau grant trydydd parti yr ydych wedi'u gwneud, rhaid i chi gadw llwybr cyflawn o'r broses o gymeradwyo'r grantiau, hyd at dalu'r grant.

39.2 Mae hyn yn cynnwys cais grant, cymeradwyaeth, cynnig y grant, talu'r grant ac yn unol â gofynion rheoli cymhorthdal. (Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn).

39.3 Bydd Tîm SPF Gogledd Cymru yn gofyn i gael gweld yr holl wybodaeth yn ystod yr ymweliad safle ac os caiff ei dewis fel rhan o wiriad sampl hawliad.

40 Costau Cyfranogwyr

40.1 Wrth gyflwyno hawliadau ar gyfer costau cyfranogwyr o ran teithio, mynychu digwyddiadau, llety, gofal plant ac ati (os yw wedi'i nodi yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy) dylid cadw manylion y cyfranogwyr ar ffeil i gefnogi'r swm sy'n cael ei hawlio

41 Costau Cyfalaf

41.1 Dim ond gwariant costau cyfalaf sydd wedi'u nodi yn Atodiad B ffurflen gais y prosiect cymeradwy gaiff eu hawlio.

41.2 Diffinnir y costau cyfalaf fel a ganlyn:

- Caffael tir a/neu adeilad
- Adeiladu
- Ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig ag adeiladu
- Offer a pheiriannau
- Unrhyw Offer sydd o werth uchel, wedi'i asesu yn unol â pholisi cyfalafu'r sawl sy'n cyflawni'r prosiect.
- Dylid dosbarthu eitemau nad ydynt yn diwallu'r diffiniad hwn fel gwariant refeniw.

42 Marchnata a Chyhoeddusrwydd

42.1 Rhaid gwario ar farchnata a hyrwyddo yn gysylltiedig yn benodol a'r prosiect a ariannir gan SPF Gogledd Cymru a chynnwys pob logo priodol a chopïau ar ffeil.

43 Cadw Dogfennau

43.1 Sicrhewch eich bod yn cadw'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â grant SPF Gogledd Cymru am gyfnod o o leiaf 10 mlynedd ar ôl y taliad grant terfynol.

43.2 Bydd Tîm SPF Gogledd Cymru yn gofyn i gael gweld y dogfennau hyn yn ystod eu hymweliadau safle o fewn cyfnod SPF Gogledd Cymru hyd at fis Mawrth 2025.

43.3 At ôl mis Mawrth 2025, gall Archwilwyr gysylltu â chi a gofyn i weld y dogfennau hyn. Mae hyn yn cynnwys pob dogfen e.e., ariannol, caffael, marchnata a hyrwyddo, tystiolaeth o'r targedau a adroddwyd (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn). Rhaid i'r dogfennau fod ar gael ar unwaith.